

Cwrs Paratoi ar gyfer Mynediad



Yn gwyno

Mae'r cwrs Cyn-Mynediad i Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi'i ddylunio i roi'r sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen arnoch i fynd ymlaen i'r Cwrs Mynediad i Nyrsio.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...y rhai sydd eisoes yn gweithio ym Maes Gofal

...dysgwyr sy'n dymuno ailhyfforddi sy'n awyddus i gael gyrfa yn y dyfodol mewn Nyrsio/Bydwreigiaeth neu Astudiaethau Parafeddyg.

Cynnwys y cwrs

Bydd y cwrs yn rhoi cipolwg i chi ar y cymhwyster Mynediad at Nyrsio ac yn darparu'r wybodaeth sylfaenol a fydd ei hangen arnoch. Bydd y cwrs hefyd yn eich helpu i ddatblygu sgiliau megis ymchwil, llyfryddiaeth, ysgrifennu academiaidd a sgiliau cyflwyno. Bydd y sgiliau hyn oll o gymorth i'ch paratoi i ymgymryd â rhaglen Lefel 3.



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gofynion Mynediad

Rhodddwn ystyriaeth unigol a gofalus i bob cais. Mae gradd A* - C mewn TGAU Saesneg Iaith yn hanfodol a rhaid darparu tystiolaeth cyn cofrestru. Rhaid i ddysgwyr fod wedi gadael addysg lawn amser ers 2 blynedd cyn astudio'r cwrs hwn.

Rydym hefyd yn disgwyl gweld sgiliau rhyngbersonol da, ymrwymiad i'r maes astudiaeth a brwdfrydedd a dealltwriaeth o'ch llwybr gyrfa dewisol.

Mae'r cwrs wedi'i ddylunio ar gyfer y rhai sydd eisoes mewn cyflogaeth a/neu unigolion sydd â diddordeb mewn ailhyfforddi i symud ymlaen i'r brifysgol a chwilio am gyflogaeth yn y Sector Iechyd.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae Coleg Gwent yn benderfynol o hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd. Noder os gwelwch yn dda, dim ond os oes digon o niferoedd y gallir cynnal y cwrs.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawu alwadau yn Gymraeg)

